Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

**Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant**

**Bwrdd Diogelu De Ddwyrain Cymru**
**Adolygiad Ymarfer Plant Cryno**

**Ynglŷn â: Bwrdd Diogelu De Ddwyrain Cymru 1/ 2020**

## Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a wnaeth arwain at yr Adolygiad

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant cryno gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru ar argymhelliad y Cyd-grŵp Adolygu Achosion. Roedd hyn yn unol â 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2, Adolygiadau Ymarfer Plant, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn dilyn marwolaeth plentyn 2 oed, a fydd yn cael ei adnabod o hyn ymlaen fel Plentyn C yn unol â dymuniadau ei theulu.

**Yr Amgylchiadau a wnaeth arwain at yr Adolygiad**

Mae'r Adolygiad hwn yn ystyried amgylchiadau plentyn benywaidd a fu farw'n drist iawn yn 2 flwydd a 4 mis oed. Ar ddiwrnod ei marwolaeth ym mis Medi 2019, roedd Plentyn C a'i mam (Oedolyn A) yn aros yn nhŷ mam-gu (Oedolyn B). Deffrodd ei mam am 7:15 y bore a chanfod nad oedd Plentyn C yn anadlu. Galwyd ambiwlans a dechreuwyd dadebru. Aethpwyd â Phlentyn C i'r Uned Asesu Plant, ond ni ellid ei dadebru a dywedwyd ei bod hi'n farw.

Roedd gan Blentyn C ddiagnosis o enseffalopathi isgemig hypocsig ac o ganlyniad roedd ganddynt anghenion iechyd cymhleth sylweddol sy'n gofyn am fwydo gastrig trwynol (BGT) a system gysgu ar gyfer y nosweithiau. Roedd Plentyn C wedi datblygu apnoea cysgu rhwystrol cymedrol i ddifrifol yn y misoedd cyn ei marwolaeth, ac roedd wedi cael ei derbyn y mis cyn ei marwolaeth am gyfnod byr i'r Ysbyty am 2 noson, lle nodwyd colled sylweddol o ran ei phwysau.

Yn y cyfarfod Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl mewn Plant, codwyd pryderon ynghylch nifer yr apwyntiadau iechyd a gollwyd a nifer yr atgyfeiriadau a gyflwynwyd i'r Gwasanaethau Plant ynghylch honiadau o ran oedolion annymunol, a oedd yn ymddangos o dan ddylanwad sylweddau, yn ymweld â thŷ Oedolion B yn aml.

Pan gyrhaeddodd yr ambiwlans a'r heddlu’r eiddo, ni ellid gweld system gysgu Plentyn C na’i thiwb BGT.  Roedd y ddwy asiantaeth yn pryderu am yr amodau cartref gwael a lle gwelwyd bod Plentyn C yn cysgu.

**Cefndir**

Ganwyd Plentyn C dramor lle'r oedd tad Plentyn C yn byw.  Cafodd Oedolyn A esgor anodd ac yn dilyn genedigaeth drawmatig, gadawyd Plentyn C gyda phroblemau iechyd cymhleth sylweddol. Dychwelodd Oedolyn A i Gymru oherwydd yr hyn a ddisgrifiodd fel gofal iechyd gwael ond gwrthodwyd fisa i dad Plentyn C i'w alluogi i gefnogi neu ofalu am eu merch yma yng Nghymru.


Ar ôl dychwelyd i Gymru, symudodd Oedolyn A i mewn gyda'i Mam-gu oedrannus ei hun (Oedolyn C).  Dywedwyd bod yr amodau cartref yma yn dderbyniol a dyma'r prif gyfeiriad lle'r oedd gweithwyr iechyd proffesiynol yn gweld Plentyn C a'r cyfeiriad y darparwyd yr holl offer arbenigol iddo.

Credir bod Oedolyn C wedi canfod dros gyfnod o fisoedd bod plentyn C ac Oedolyn A yn byw gyda hi’n heriol, o ystyried ei hoedran a'i hanghenion iechyd ei hun. Roedd Oedolyn A wedi gwneud cais am dai ond dros gyfnod graddol dechreuodd dreulio mwy o amser yn nhŷ Oedolyn B, a oedd ar ddiwedd yr un stryd.  Parhaodd Oedolyn A i ddweud wrth weithwyr proffesiynol ei bod yn byw gydag Oedolyn C.

Roedd gan Blentyn C offer arbenigol ar gyfer eistedd, cysgu a bwydo ac ni fyddai hyn wedi cael ei gludo'n hawdd rhwng cartrefi.

Ym mis Awst 2019, treuliodd Plentyn C 2 ddiwrnod yn yr ysbyty a nodwyd ei bod wedi colli pwysau. Fe'i hadolygwyd gan Ddeietegydd a oedd yn rhagnodi deiet calorïau uwch.  Cafodd Plentyn C ei fonitro gan y tîm bwydo gartref.

**Genogram**




**Adolygiad o'r Cyfnod Amser**.

Cytunwyd ar y cyfnod amser ar gyfer yr adolygiad o 9 Awst 2017 pan ddychwelodd Plentyn C i Gymru a chysylltu â'r gwasanaethau Iechyd am y tro cyntaf, hyd at ei marwolaeth ar 14^eg^ Medi 2019.

## Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

Wrth gynnal yr Adolygiad hwn, rydym yn ddiolchgar am gronolegau'r asiantaeth a gyflwynwyd a'r wybodaeth a'r amser a roddir gan aelodau o'r teulu. Hoffem ddiolch yn arbennig i'r gweithwyr proffesiynol a fynychodd y Digwyddiad Dysgu.

**Themâu a Phwyntiau Dysgu**

Nodwyd tair thema gyffredinol sydd wedi llywio'r pwyntiau dysgu o'r adolygiad hwn.

- Sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael blaenoriaeth
- Cefnogi teuluoedd i gyflawni eu rôl fel gofalwyr
- Cyfathrebu

**Thema 1 - Sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael blaenoriaeth**

Drwy gydol ei bywyd byr roedd gan Blentyn C lawer o apwyntiadau Iechyd gydag amrywiaeth o wahanol weithwyr iechyd proffesiynol. Ar gyfer cyfnod yr adolygiad, cofnodir bod ganddi 136 o apwyntiadau, ac roedd yn bresennol yn 69 ohonynt. Cafodd 16 eu canslo gan yr ysbyty, cofnodwyd 23 fel Heb Fynychu a chofnodwyd 28 fel Methu â Mynychu. Dangosodd y llinell amser fod rhai o'r apwyntiadau hyn ar yr un diwrnod mewn lleoliadau gwahanol, mewn cyfnodau byr. Mynychodd Plentyn C hefyd Fwrdd Iechyd cyfagos ar gyfer ei phroblemau Niwrolegol (epilepsi).

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd cofnod claf unigol. Er enghraifft, cofnodir derbyniadau i'r ysbyty a phresenoldeb yr Adran Achosion Brys ar system electronig, mae Ymwelwyr Iechyd yn cadw cofnodion papur, mae rhai gwasanaethau therapi yn defnyddio'r system electronig ac mae gan eraill eu systemau eu hunain neu eu systemau papur. Ar gyfer Plentyn C byddai hyn yn golygu efallai na fydd gweithwyr proffesiynol yn gwybod am apwyntiadau a fethwyd gan na fyddent yn gallu cael gafael ar y wybodaeth honno.

**Pwyntiau Dysgu**

- Ni fyddai gweithwyr proffesiynol wedi gwybod am yr apwyntiadau a gollwyd.
- Nid oedd gan yr un gweithiwr proffesiynol oruchwyliaeth gyfan i allu asesu goblygiadau'r apwyntiadau hyn a gollwyd, i iechyd Plentyn C, gan eu bod yn cael eu gweld ar wahân gan yr adrannau y cynhaliwyd yr apwyntiad ar eu cyfer.
- Roedd cydgysylltu gofal gyda'r Tîm Teuluoedd yn Gyntaf, nad oeddent yn ymwybodol o'r apwyntiadau a gollwyd.
- Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant sydd ag anghenion gofal iechyd cymhleth gael trosolwg o'r gwasanaethau sy'n darparu cymorth a sicrhau bod cyfathrebu amlddisgyblaethol effeithiol.

**Enghraifft o Arfer Da:** Cofnododd staff iechyd 'Methu â Mynychu' felly roedd yn amlwg pan nad oedd Plentyn C yn gallu mynychu, yn hytrach na’i bod wedi peidio â mynychu.

**Argymhelliad**

- Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ystyried Polisi 'Heb Eu Tywys' ar gyfer oedolion sydd mewn perygl a phlant, nad ydynt yn mynychu apwyntiadau gydag unrhyw asiantaeth.

Dywedodd y teulu eu bod yn ei chael hi'n anodd mynychu apwyntiadau meddygol neu gymunedol ar gyfer Plentyn C oherwydd y gofid a brofodd Plentyn C wrth ei chludo. Gellir priodoli hyn yn ymarferol i'r ystum corfforol yr oedd hi ynddi pan gafodd ei rhoi yn ei sedd gar, a oedd yn cynyddu lefel symudiadau dystonig a gofid a all arwain at weithgarwch o drawiad neu'r angen i roi meddyginiaeth epilepsi brys. Archebwyd sedd car arbenigol gan y Therapydd Galwedigaethol a wnaeth gais i elusen am y cyllid ar gyfer y sedd hon, ond cymerodd hyn dros 6 mis.

**Pwynt Dysgu**

- Yr effaith a gafodd argaeledd offer arbenigol ar sicrhau bod Plentyn C yn gallu mynychu apwyntiadau, er enghraifft aros am y sedd car arbenigol.

**Enghraifft o Arfer Da:** Lle bo'n bosibl, byddai therapïau'n mynd i'r cartref i gefnogi Oedolion A gyda phroblemau trafnidiaeth.

Ym mis Ebrill 2018, trefnwyd Cyfarfod Tîm Amlasiantaethol (CTA) gan y Cydlynydd Gofal ond oherwydd nifer y gweithwyr proffesiynol nad oedd yn gallu bod yn bresennol, cafodd y cyfarfod ei ganslo. Ym mis Mehefin 2018, cafodd y CTA ei ail-ymgynnull. Awgrymodd y Pediatregydd yn y cyfarfod hwn y byddai Plentyn C yn elwa o gael gastrostomi yn hytrach na'i thiwb BGT. Dim ond un CTA arall a gynhaliwyd, ac eto nid oedd wedi'i fynychu'n dda.

**Pwynt Dysgu**

- Lle nad yw gweithwyr proffesiynol yn gallu mynychu CTA,, dylid darparu diweddariad ysgrifenedig o flaen llaw i Gadeirydd y cyfarfod.

Nid yw'r llinell amser yn cofnodi a adolygwyd yr argymhelliad gastrostomi neu pam na chafodd ei ddilyn. Mae gwiriadau dilynol wedi cadarnhau bod Oedolyn A wedi methu apwyntiad yn anffodus ac roedd hyn wedi oedi cymryd ymlaen y camau. Mae'r cofnodion yn dangos bod ei phwysau wedi gwastatáu ac wedi cwympo o'i chanradd o 13 mis oed, hyd at ei marwolaeth.

**Enghraifft o Arfer Da:** Er i Blentyn C fethu'r apwyntiad, ni wnaeth y pediatregydd ei rhyddhau o'r gwasanaeth a chynigiodd apwyntiad pellach.

Ym mis Awst 2019, ar dderbyniad olaf Plentyn C i'r ysbyty, nodwyd ei bod wedi colli pwysau sylweddol. Gofynnodd Oedolyn A iddi gael ei rhyddhau ar ôl 2 noson, heb gyfarfod cynllunio rhyddhau cleifion o'r ysbyty neu drefnu adolygiad meddygol dilynol.

**Pwyntiau Dysgu**

- Os yw plentyn sydd ag anabledd cymhleth/anghenion meddygol yn profi colli pwysau sylweddol/methiant posibl i ffynnu, dylid archwilio achos meddygol a rhoi ystyriaeth hefyd i weld a oes unrhyw bryderon diogelu sylfaenol a allai fod angen Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (FfAA), yn enwedig os oes unrhyw bwyntiau coch eraill, gan y gallai hyn fod yn nodwedd o esgeulustod i ddiwallu anghenion sylfaenol y plentyn. Os derbynnir y plentyn i'r ysbyty, ni ddylid ei ryddhau heb i'r materion hyn gael sylw a dim ond pan fydd wedi'i

sefydlu y gall addasu dietegol ei hun sicrhau cynnydd mewn pwysau neu a oes ffactorau eraill.

- Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'r gymuned, os ydynt yn pwyso'r plentyn, allu gweld a chofnodi'r Siart Twf ar Orsaf Waith Glinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
- Os derbynnir plentyn sydd ag anghenion cymhleth i'r ysbyty, dylai cynllun rhyddhau fod ar waith, gyda threfniadau dilynol clir yn cael eu cofnodi, a'r pryderon a godwyd gan unrhyw weithiwr proffesiynol cysylltiedig i fynd i'r afael â hwy.

**Thema 2 - Cefnogi teuluoedd i gyflawni eu rôl fel gofalwyr**

Ym mis Ionawr 2018, pan oedd Plentyn C yn 8 mis oed neilltuwyd Cydlynydd Gofal* a fyddai wedyn yn cael cyswllt rheolaidd â Phlentyn C ac Oedolyn A. Rôl y Cydlynydd Gofal a'i hymwneud oedd cefnogi Oedolyn A ond hefyd i'w helpu i reoli nifer o apwyntiadau. Ym mis Chwefror 2018, ymwelodd y Cydlynydd Gofal ag Oedolyn A gartref a nododd fod angen y cymorth canlynol:

- Darparu llythyr o gefnogaeth i dad Plentyn C i gael Fisa er mwyn iddo allu ymweld â'i ferch
- Gwneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl / Lwfans Gofalwr
- Cofrestru gyda Cheiswyr Cartref a gwneud cais am dai priodol
- Mynediad haws i bresgripsiynau Plentyn C.

Cynigiwyd cymorth i Oedolion A, fodd bynnag, ni nododd wybodaeth amserol i'r Cydlynydd Gofal a arweiniodd at oedi wrth brosesu'r ceisiadau perthnasol. Yn y digwyddiad dysgu, dywedodd y Cydlynydd Gofal nad oeddent wedi bod yn ymwybodol o nifer yr apwyntiadau ysbyty na phryd neu ble'r oedd y rhain.

Mae rôl y Cydlynydd Gofal yn swydd Gwasanaethau Cymdeithasol ac roedd gan ddeiliad y swydd fynediad i rai o systemau'r Bwrdd Iechyd. Cofnodir rhai apwyntiadau o fewn y system honno. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, nid oedd y Cydlynydd Gofal wedi defnyddio'r system ac felly nid oedd yn ymwybodol o'r apwyntiadau.

**Enghraifft o Arfer Da:** Nodwyd cymorth priodol a'i gynnig i Oedolion A

**Pwyntiau Dysgu**

- Mae angen cytundeb amlasiantaethol rhanbarthol ynghylch disgwyliadau, rolau a chyfrifoldebau o ran y rôl Cydlynu Gofal.

**Argymhelliad**

- Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried sut y gellir cryfhau rôl y Cydlynydd Gofal ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth, er mwyn sicrhau cydgysylltiad ar draws cyrff amlasiantaethol, gan sicrhau bod anghenion y plentyn yn y canol.

* Mae'n bwysig nodi, nad oes gan bob Awdurdod Lleol yn rhanbarth y Bwrdd Diogelu rolau Cydlynwyr Gofal.

**Thema 3 - Cyfathrebu**

Gwnaed Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (FfAA) ym mis Hydref 2017 yn ystod derbyniad i'r ysbyty lle nododd staff fod Oedolyn A yn ei chael hi'n anodd yn emosiynol ac yn ymarferol. Ceisiodd y Gwasanaethau Cymdeithasol gysylltu ag Oedolyn A ond nid oeddent yn llwyddiannus, felly cysylltwyd â'r Ymwelydd Iechyd a chafwyd cytundeb y byddai Teuluoedd yn Gyntaf yn fwy priodol i gynnig y cymorth angenrheidiol. Roedd hyn ar y sail bod yr Ymwelydd Iechyd eisoes wedi cyfeirio at Wasanaethau Integredig ar gyfer Plant ag Anghenion Ychwanegol (sef ISCAN).

**Enghraifft o Arfer Da:** Cyflwynwyd FfAA gan staff Nyrsio'r Ysbyty

**Pwyntiau Dysgu**

- Roedd Oedolyn A yn amlwg o dan bwysau aruthrol ond nid oes unrhyw gofnod yn sôn bod ei lles emosiynol wedi'i ystyried.
- Arfer gorau bob amser fyddai bod y rhiant yn rhoi caniatâd i unrhyw atgyfeiriadau i wasanaethau gael eu gwneud. Nododd y llinell amser y byddai Oedolyn A yn aml yn dod yn ymosodol neu'n bryderus iawn a allai gwyro’r pryderon a godwyd gan asiantaethau. Os yw hyn yn amlwg, byddai'n ddoeth ystyried pam y gallai hyn fod. Pe bai gwiriadau wedi'u cynnal ar y pwynt atgyfeirio, yna byddai wedi'i sefydlu bod Oedolyn A wedi profi trawma fel plentyn, a allai fod wedi effeithio ar ei gallu i rianta ac i ymgysylltu â gwasanaethau.

Ar ddechrau mis Gorffennaf 2019, cyflwynwyd y cyntaf o sawl FfAA i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch pryderon bod Plentyn C bellach yn byw'n bennaf yn nhŷ Oedolion B a bod pobl annymunol yn aml yn ymweld â’r eiddo. Er nad oedd yn ddienw, gwnaed y rhain gan rywun yn y gymdogaeth y gwyddys bod ganddynt anghydfod parhaus ag Oedolyn A. Cododd y cymydog bryderon bod y bobl hyn yn camddefnyddio sylweddau pan oeddynt yn ymweld â’r eiddo. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y bobl hyn yn hysbys i Asiantaethau am gamddefnyddio sylweddau ac na ddylent fod yn cael cyswllt â phlant.

Ar 3 Gorffennaf 19, derbyniwyd "pryder am ddiogelwch plentyn" gan yr Heddlu. Roedd y pryder hwn yn amlinellu'n glir bod llawer o wahanol oedolion sydd â hanes o gyswllt â’r gwasanaethau cymdeithasol yn gofalu am blentyn sydd ag anableddau ac na ddylent fod yn gofalu am unrhyw blentyn. Ni chymerwyd unrhyw gysylltiad ag asiantaethau na chamau eraill.

Mae'n amlwg bod gorddibyniaeth ar hunan-adrodd rhieni a chyfranogiad asiantaethau eraill yn dylanwadu ar benderfyniadau ar yr atgyfeiriadau hyn. Ffactor cymhlethu pellach oedd dryswch proffesiynol ynghylch rolau a chyfrifoldebau pob asiantaeth a arweiniodd at ychydig neu ddim cydlynu. Mae angen gwell dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau asiantaethau sy'n cefnogi'r teulu er mwyn i'r wybodaeth gywir gael ei rhannu.

Pan ymddengys bod rhieni'n ei chael hi'n anodd yn emosiynol, mae cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol i gytuno pwy sydd yn y sefyllfa orau i gynnig cymorth

a chymryd y rôl arweiniol bryd hynny yn hollbwysig.

**Pwyntiau Dysgu**

- Ni waeth a ystyrir bod atgyfeiriadau'n faleisus o bosibl, dylid eu trin fel pryder posibl a'u hasesu neu eu hymchwilio yn unol â hynny. Mae angen i rannu a chasglu gwybodaeth yn y cam cychwynnol hwnnw fod yn hollbwysig.

**Argymhellion**

- Dylid meddwl sut i gryfhau cydweithio mewn partneriaeth. Gallai ystyried manteision cydleoli pob Asiantaeth fod yn un opsiwn. Dylai Awdurdodau Lleol adolygu eu trefniadau drws ffrynt i sicrhau bod pob atgyfeiriad yn cael ei sgrinio'n gychwynnol gan y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Heddlu gan gynnwys y rhai lle gwyddys bod gan blentyn anabledd.
- Dylid cwblhau cronolegau wrth wneud penderfyniadau ar atgyfeiriadau newydd i'r timau gwaith cymdeithasol. Ni ddylai ymarferwyr ddibynnu ar hunan-adrodd ond defnyddio chwilfrydedd proffesiynol ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Gwella Systemau ac Ymarfer**

*Er mwyn hyrwyddo'r dysgu o'r achos hwn nododd yr adolygiad y camau canlynol ar gyfer Bwrdd Diogelu Gwent a'i asiantaethau sy'n aelodau a'r canlyniadau gwella disgwyliedig*:-

**Argymhelliad 1**

- Dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ystyried Polisi 'Heb Eu Tywys' ar gyfer oedolion sydd mewn perygl a phlant, nad ydynt yn mynychu apwyntiadau gydag unrhyw asiantaeth.

**Argymhelliad 2**

- Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried sut y gellir cryfhau rôl y Cydlynydd Gofal ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth, er mwyn sicrhau cydgysylltiad ar draws cyrff amlasiantaethol, gan sicrhau bod anghenion y plentyn yn y canol.

**Argymhelliad 3**

- Dylid meddwl sut i gryfhau cydweithio mewn partneriaeth. Gallai ystyried manteision cydleoli pob Asiantaeth fod yn un opsiwn. Dylai Awdurdodau Lleol adolygu eu trefniadau drws ffrynt i sicrhau bod pob atgyfeiriad yn cael ei sgrinio'n gychwynnol gan y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r Heddlu gan gynnwys y rhai lle gwyddys bod gan blentyn anabledd.

**Argymhelliad 4**

- Dylid cwblhau cronolegau wrth wneud penderfyniadau ar atgyfeiriadau newydd i'r timau gwaith cymdeithasol. Ni ddylai ymarferwyr ddibynnu ar hunan-adrodd ond defnyddio chwilfrydedd proffesiynol ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Cyfeiriadau:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents

**Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr**

| **ADOLYGYDD 1** | Liz Hiscocks | **ADOLYGYDD 2** | Natalie Poyner |
|---|---|---|---|

| **Datganiad annibyniaeth o'r achos** *Datganiad cymhwyster Sicrwydd Ansawdd* | **Datganiad annibyniaeth o'r achos** *Datganiad cymhwyster Sicrwydd Ansawdd* |
|---|---|
| Rwy'n gwneud y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn: -<br>• Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi cael unrhyw reolaeth llinell uniongyrchol ar yr ymarferydd/ymarferwyr dan sylw.<br>• Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion fel y'u nodir yn y Cylch Gorchwyl. | Rwy'n gwneud y datganiad canlynol, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn: -<br>• Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.<br>• Nid wyf wedi cael unrhyw reolaeth llinell uniongyrchol ar yr ymarferydd/ymarferwyr dan sylw.<br>• Mae gennyf y cymwysterau, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion fel y'u nodir yn y Cylch Gorchwyl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adolygydd 1** | E. Hiscocks | **Adolygydd 2** | |
| **Enw** | Liz Hiscocks | **Enw** | Natalie Poyner |
| **Dyddiad** | 08.09.2021 | **Dyddiad** | 08.09.2021 |

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd yr Adolygiad** | |
| **Enw** | Gareth Jenkins |
| **Dyddiad** | 08.09.2021 |

**Atodiad 1:** Cylch Gorchwyl

| Proses Adolygiad Ymarfer Plant |
|---|
| Hysbysodd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru Lywodraeth Cymru ar 4ydd Mawrth 2020 ei fod yn comisiynu Adolygiad Ymarfer Plant Cryno mewn perthynas â phlentyn.<br><br>Adolygwr:<br>Liz Hiscocks, Dirprwy Bennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br><br>Adolygwr:<br>Natalie Poyner, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Casnewydd<br><br>Cadeirydd y Panel:<br>Gareth Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br><br>Roedd y gwasanaethau a gynrychiolir ar y panel yn cynnwys:<br>• Heddlu Gwent<br>• Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Aneurin Bevan University Health Board<br><br>Cyfarfu'r Panel yn rheolaidd o fis Mehefin 2020 er mwyn adolygu'r wybodaeth amlasiantaethol a darparu dadansoddiad i gefnogi datblygiad yr adroddiad.<br><br>Digwyddiad Dysgu<br>Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ym mis Ebrill 2021 ac roedd yr asiantaethau canlynol yn bresennol:<br><br>• Aneurin Bevan University Health Board<br>• Heddlu Gwent<br>• Gwasanaethau Plant |

Aelodau'r Teulu

Hysbyswyd aelodau perthnasol o'r teulu bod yr adolygiad yn cael ei gynnal a chynhaliwyd cyfarfodydd gydag Adolygwyr lle gofynnwyd amdanynt.

☐ Teulu wedi gwrthod cymryd rhan

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyniwyd y wybodaeth ............................

Dyddiad anfon llythyr cydnabod at y Cadeirydd .............................

Dyddiad dosbarthu i arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol .............................

| Asiantaethau | Ie | Na | Rheswm |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |

**Atodiad 1**

# Cylch Gorchwyl

## ADOLYGIAD YMARFER PLANT CRYNO MEWN PERTHYNAS Â Bwrdd Diogelu De Ddwyrain Cymru 1/ 2020

## Tasgau craidd

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau gwasanaethau a enwir a'r Bwrdd.
- Archwilio gwaith rhyngasiantaethol a darparu gwasanaethau ar gyfer y plentyn a'r teulu.
- Pennu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu yn canolbwyntio ar unigolion.
- Gofyn am gyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi gwybod iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

## Tasgau penodol y Panel Adolygu

- Nodi a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r panel adolygu yn unol â chanllawiau ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol a nodi unrhyw gamau a gymerwyd eisoes.
- Cynhyrchu llinell amser gyfunol, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaethau. (cwmpas o’r 3ydd Awst 2017 i 14eg Medi 2019)
- Cynllunio gyda'r adolygydd/adolygwyr ddigwyddiad dysgu i ymarferwyr, gan gynnwys nodi mynychwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygydd/adolygwyr trefniadau cyswllt gyda'r unigolyn ac aelodau o'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr adolygiad ymarfer plant er mwyn sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni, bod y tybiaethau cychwynnol yn cael sylw a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cytuno.

- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn ei gyhoeddi.

## Tasgau'r Bwrdd Diogelu Plant

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd sydd i'w cynnwys yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.

- Panel Adolygu yn cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.

- Mae'r Bwrdd yn anfon at asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

- Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol gan yr Is-grŵp Adolygu, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau disgwyliedig i wasanaethau yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.

- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd.

- Cytuno ar ledaenu'r cynllun i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.

- Cadeirydd y Bwrdd fydd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau cyhoeddus ac ymatebion i ymholiadau'r cyfryngau sy'n ymwneud â'r adolygiad, hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.